

Cyfeirnod: IR762

Dyddiad cyhoeddi: 21 Rhagfyr 2020

Cyngor Tref Tref-y-clawdd

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch cais am wybodaeth 7 Rhagfyr 2020 lle gwnaethoch ofyn am wybodaeth, fel a ganlyn:

Ni chyhoeddir Ffurflenni Llywodraethu ac Atebolrwydd Flynyddol (AGAR) ar gyfer Cyngor Tref Tref-y-clawdd ar-lein, felly rwyf wedi cysylltu â'r

Clerc gyda chais rhyddid gwybodaeth ond ni chafwyd ateb. Fel yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer

Cyngor Tref Tref-y-clawdd a allaf dybio eich bod wedi gweld eu cyfrifon ac wedi cyhoeddi adroddiad? Os felly, a fyddai modd derbyn copi?

Rydym yn cadw copi o'r cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2020 (y mae gan y Cyngor ddyletswydd i'w gyhoeddi o dan adran 55 Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013) ac mae hwn wedi'i atodi, ynghyd â chopi o'r llythyr archwilio blynyddol ar gyfer y flwyddyn honno. Rwyf wedi hysbysu'r Cyngor bod y wybodaeth hon wedi'i darparu mewn ymateb i gais o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth gan na fyddai'n ymddangos yn rhesymol hygyrch i chi drwy ddulliau eraill, hynny yw, drwy gyhoeddi ar wefan y Cyngor Cymuned.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, neu gwestiynau am y ffordd yr ymdriniais â'ch cais, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir

Swyddog Gwybodaeth